


I'w gyflwyno yn ystod y pythefnos cyn yr Her Caredigrwydd

# CYNLLUN GWASANAETH

Mae'r canllaw defnyddiol hwn yn helpu i egluro i'r disgyblion pam eu bod yn cymryd rhan yn yr Her Caredigrwydd. Mae hefyd yn rhoi gwybod iddynt sut gall cael hwyl a chodi arian wneud gwahaniaeth i fywydau plant.

## AMLINELLIAD

- Beth yw elusen?
- Beth yw Childline?
- Pam cefnogi Childline?
- Amlinelliad o weithgaredd yr Her Caredigrwydd
- Sut mae cymryd rhan

## HYD

Dylai'r gwasanaeth bara tua 10-15 munud a dylai fod yn addas ar gyfer pob oed. Gellir newid y cynnwys yn dibynnu ar oedran eich disgyblion.

## Y CANLYNIAD A DDYMUNIR

Bydd nifer o ganlyniadau erbyn diwedd y gwasanaeth:

- Bydd y disgyblion yn deall sut mae Childline yn helpu plant a phobl ifanc.
- Byddan nhw'n deall beth fyddwch chi'n ei wneud yn ystod yr Her Caredigrwydd a sut byddan nhw'n codi arian i Childline.
- Byddant yn teimlo'n llawn cymhelliant, yn barod ac yn falch o wneud gwahaniaeth.

## NODIADAU I ATHRAWON

Dylai'r nodiadau hyn fod yn ganllaw defnyddiol ar gyfer cynllunio eich gwasanaeth. Canllaw yw'r holl wybodaeth a ddarperir, a gellir ei haddasu yn ôl yr angen.

### Beth yw elusen?

Mae elusen yn helpu un grŵp o bobl i gefnogi un arall. Ac yn achos Childline, rydyn ni'n ateb cysylltiadau gan blant a phobl ifanc am unrhyw broblem maen nhw'n ei hwynebu.

### Beth yw Childline?

Mae Childline yma i helpu unrhyw un o dan 19 oed yn y DU gydag unrhyw broblem maen nhw'n ei hwynebu. Gall plentyn neu berson ifanc siarad am unrhyw beth, boed yn rhywbeth mawr neu fach, mae cwnselwyr hyfforddedig Childline yma i'ch cefnogi chi. Mae Childline yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael unrhyw bryd, ddydd neu nos.

Gwasanaeth a ddarperir gan yr NSPCC yw Childline.

childline
Gwasanaeth NSPCC sy'n trawsnewid bywydau

Gwasanaeth a ddarperir gan yr NSPCC yw Childline. ©NSPCC 2024. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 216401. Yr Alban SC037717 a Jersey 384. Ffotograffau gan Tom Hull ac Abbie Trayler-Smith. Modelau yw'r plant a'r bobl ifanc yn y lluniau. Mae'r lluniau'n cynnwys un o gwnselwyr go iawn Childline yr NSPCC, Sarah Murphy. J20240074.




## Mwy am Childline

Mae'n bwysig atgoffa'r bobl ifanc yn eich ysgol eu bod yn gallu siarad ag oedolyn diogel neu Childline os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon.

Gall plant a phobl ifanc dros 12 oed gysylltu â Childline ar-lein, neu dros y ffôn, unrhyw bryd, drwy fynd i **childline.org.uk**, neu ffonio **0800 1111.**

**Ar-lein**: mae opsiwn i anfon e-bost at neu gael sgwrs un-i-un â chwnselydd. Gall plant gael gafael ar y gwasanaeth cwnsela ar-lein ar ôl iddyn nhw greu cyfrif.

Er mwyn creu cyfrif Childline, gofynnir i bobl ifanc ddarparu:

- Enw defnyddiwr (preifat)
- Eu hoedran a'u gwlad breswyl

Byddant yn cael llysenw a gynhyrchir yn awtomatig (sy'n ymddangos yn gyhoeddus ond y gellir ei newid)

**Dros y ffôn**: gall plant ffonio Childline am ddim a siarad â chwnselydd drwy ffonio **0800 1111**.

Dywedwch wrth y plant fod galwadau i Childline:

- yn rhad ac am ddim
- ddim yn cael eu recordio
- yn bosibl hyd yn oed os nad oes credyd ar y ffôn
- ddim yn dangos ar eu bil ffôn.

Mae cwnselwyr Childline yn darparu cymorth hanfodol i blant pan fydd ei angen fwyaf arnynt. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn sydd angen ein help yn barod i siarad yn uniongyrchol â chwnselydd neu eisiau gwneud hynny.

## Gwefan Childline

Mae ein gwefan hefyd yn rhoi llawer o wybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc am wahanol bynciau **childline.org.uk/info-advice**, ynghyd ag adnoddau hunangymorth rhyngweithiol **childline.org.uk/toolbox**

### Y byrddau negeseuon

**childline.org.uk/get-support/message-boards**

Mae'r byrddau negeseuon yn fforwm cyhoeddus i bobl ifanc gefnogi ei gilydd gydag unrhyw beth yn eu bywydau.

- Gall pobl ifanc rannu unrhyw beth, o'u profiad o faterion iechyd meddwl i'w hoff ryseitiau.
- Rydyn ni'n cymedroli pob neges ymlaen llaw ac yn gallu cynnal archwiliadau diogelu ychwanegol pan fydd angen.
- Rhaid i neges gadw at y rheolau. Os na allwn dderbyn rhywbeth, byddwn yn cysylltu â'r person ifanc i roi gwybod iddo pam.

Gall person ifanc bostio ar y byrddau negeseuon am yr holl faterion maen nhw'n gallu siarad â chwnselydd Childline amdanyn nhw, gyda llai o fanylion efallai (er enghraifft, yn achos hunan-niweidio) oherwydd yr effaith ar weddill y gymuned. Os ydyn nhw'n dymuno, gall pobl ifanc ddefnyddio eu henw cyntaf ar y byrddau negeseuon ond mae postiadau'n cael eu gwirio i wneud yn siŵr nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth sy'n datgelu pwy ydyn nhw, er mwyn i bawb fod yn ddienw ac yn ddiogel.

### Ask Sam

**childline.org.uk/get-support/ask-sam**

Mae Ask Sam yn rhyw fath o wasanaeth Modryb Gofidiau.

- Gall y bobl ifanc gyflwyno llythyr at "Sam" am unrhyw beth o gwbl.
- Mae Sam yn darllen pob llythyr ond dim ond yn ymateb i ychydig yn gyhoeddus bob wythnos.
- Mae'r llythyrau sy'n cael eu dewis yn adlewyrchu materion y mae llawer o bobl ifanc yn poeni yn eu cylch.
- Gall pobl ifanc ddarllen yr holl lythyrau sydd wedi'u cyhoeddi ar y wefan a does dim angen cyfrif Childline arnyn nhw i gyflwyno llythyr.

childline

*Gwasanaeth* **NSPCC** *sy'n trawsnewid bywydau*

Gwasanaeth a ddarperir gan yr NSPCC yw Childline. ©NSPCC 2024. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 216401. Yr Alban SC037717 a Jersey 384. Ffotograffau gan Tom Hull ac Abbie Trayler-Smith. Modelau yw'r plant a'r bobl ifanc yn y lluniau. Mae'r lluniau'n cynnwys un o gwnselwyr go iawn Childline yr NSPCC, Sarah Murphy. J20240074.




## Pam cefnogi Childline?

**Drwy godi arian i Childline, rydych chi'n helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth.**

Rhannwch stori o'r daflen astudiaethau achos ar y safle adnoddau gyda'ch disgyblion a'u helpu i ddeall y gwahaniaeth y gall eu cefnogaeth ei wneud.

Mae pob punt a godir yn helpu plant.




## Amlinelliad o weithgaredd yr Her Caredigrwydd

Ar gyfer yr adran hon, dylech amlinellu beth yw gweithgaredd dewisol eich ysgol ar gyfer yr Her Caredigrwydd. P'un a ydych chi'n bwriadu chwarae gêm gyda ffrind newydd neu helpu rhywun gyda'i waith cartref, mae pob gweithred garedig yn helpu i greu byd gwell.

Esboniwch sut mae llenwi'r daflen waith Gweithred Garedig a faint o amser fydd ganddynt i gwblhau eu heriau. Esboniwch yr holl weithgareddau y byddant yn eu gwneud fel rhan o'r Her Caredigrwydd a gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod pryd a sut mae cymryd rhan.

## Codi arian

Bydd angen i blant ofyn am ganiatâd eu rhiant neu ofalwr cyn gallu codi arian a chasglu rhoddion. Gallwch anfon y llythyr at rieni a gofalwyr i wneud yn siŵr eu bod yn deall beth mae'r digwyddiad yn ei olygu. Gallech sôn amdano mewn cylchlythyr hefyd.

## Nawdd

Defnyddiwch yr adran hon os ydych chi'n cynnal eich Her Caredigrwydd fel digwyddiad noddedig.

Os ydych chi'n defnyddio codau QR GiftT, dywedwch wrth y disgyblion y gallan nhw, gyda chaniatâd eu rhiant neu ofalwr, rannu eu ffurflen noddi â theulu a ffrindiau, sy'n cynnwys y cod QR. Gallwch argraffu'r ffurflenni o'r dudalen GiftT a'u rhoi i bawb ar ddiwedd y gwasanaeth.

### DIOLCH!

Gallai hyn hefyd fod yn amser da i atgoffa'r plant am dîm amddiffyn plant eich ysgol, a all gefnogi disgyblion gydag unrhyw bryderon sydd ganddynt.

**Diolch am greu caredigrwydd a chodi arian i bobl ifanc.**



childline

Gwasanaeth **NSPCC** sy'n trawsnewid bywydau

Gwasanaeth a ddarperir gan yr NSPCC yw Childline. ©NSPCC 2024. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 216401. Yr Alban SC037717 a Jersey 384. Ffotograffau gan Tom Hull ac Abbie Trayler-Smith. Modelau yw'r plant a'r bobl ifanc yn y lluniau. Mae'r lluniau'n cynnwys un o gwnselwyr go iawn Childline yr NSPCC, Sarah Murphy. J20240074.